# LEFEL 3 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI

## CANLLAW GWYBODAETH I DDYSGWYR



# TABL CYNNWYS

Cyflwyniad i'r cymhwyster........T3

Strwythur y cymhwyster........T6

Asesu........T19

Hoff ddull dysgu........T27

Rhestr termau........T31

# CYFLWYNIAD I'R CYMHWYSTER



# Ydy'r cymhwyster hwn yn addas i chi?

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer pobl sy'n gweithio, neu sydd am weithio, mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd/gofalwyr a phlant o dan 8 oed a gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd/gofalwyr a phlant 0-19 oed.

## Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith a/neu i symud ymlaen mewn gyrfa mewn lleoliadau gofal plant neu iechyd.

Mae'n gyfuniad o unedau ymarfer i'w hasesu yn y gweithle, ynghyd â gwybodaeth ddamcaniaethol ychwanegol. Mae elfen ymarfer y cymhwyster hwn yn adlewyrchu cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Mae'r agwedd ddamcaniaethol yn canolbwyntio ar egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar iechyd, llesiant a datblygiad plant a sut y gall y sector gofal plant ac iechyd plant ymateb i holl anghenion plant 0-19 oed.

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen i ddysgwr eu meithrin yn y cymhwyster hwn yn adeiladu ar gynnwys cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori a chymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Argymhellir yn gryf y dylai dysgwr sy'n dilyn y cymhwyster hwn fod wedi cwblhau, neu'n cwblhau ar hyn o bryd, y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Mae'r fanyleb hon yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant drwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, neu brentisiaethau. At hynny, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio cydlynus, boddhaus a gwerthfawr i ddysgwyr nad ydynt yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach.

## Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Bydd cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiadau, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall, ac yn gallu defnyddio'n ymarferol, yr egwyddorion a'r gwerthoedd sydd wrth wraidd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- deall dulliau gweithredu plentyn-ganolog mewn perthynas â gofal, chwarae a dysgu ac yn eu rhoi ar waith yn ymarferol
- hybu a chefnogi datblygiad plant drwy eu hymarfer eu hunain
- gwerthuso ymchwil a damcaniaethau i gefnogi ymarfer
- ymwybodol o bolisïau allweddol yn y sector a sut mae'r rhain yn effeithio ar y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau
- gweithio mewn partneriaeth â phlant, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol
- myfyrio ar ymarfer er mwyn gwella'n barhaus
- defnyddio amrywiaeth o dechnegau datrys problemau
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu rôl.

## Pa gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer dilyniant?

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant trwy ystod o gyrsiau addysg uwch, neu brentisiaethau.

Yn ogystal, mae'r cymhwyster yn darparu cwrs astudio cydlynol, boddhaol a gwerth chweil i ddysgwyr nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.


Bydd y cymhwyster hwn hefyd yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth mewn rôl Lefel 3 neu symud ymlaen at ddysgu pellach drwy gymwysterau canlynol y Consortiwm:

- TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 4 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant gydag arbenigedd.


# STRWYTHUR Y CYMHWYSTER



## Ble y gall arwain? Strwythur y Cymhwyster



## Strwythur Asesu'r Cymhwyster




### Theori – Arholiad ac Asesiad Allanol

Arholiad Allanol Uned 330

- Mae'r papur arholiad 120 munud hwn ar gael ym mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn.

Asesiad Allanol Uned 331

- Project ymchwil ar bwnc dynodedig a ddarperir gan CBAC bob mis Mawrth yw hwn.
- Ymchwiliad estynedig wedi'i osod a'i farcio'n allanol.

Asesiad Mewnol Uned 332

- Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ymarferol hanfodol yn barod at leoliad gwaith.
- Wedi ei hasesu drwy bortffolio o dystiolaeth.
- Mae'r uned hon ar wahân i asesiadau'r uned ymarferol a dylai gael ei hasesu fel portffolio arunig.

### Ymarfer – Asesiad Mewnol

Rhaid i ddysgwyr gwblhau cyfres o dasgau a gaiff eu gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol:

- portffolio o dystiolaeth
- trafodaeth broffesiynol
- asesiad allanol

### Portffolio o Dystiolaeth

Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud ar gyfer fy **Mhortffolio o dystiolaeth?**

Mae'r portffolio yno er mwyn darparu tystiolaeth ychwanegol ar gyfer unrhyw unedau nad yw'n debygol y byddan nhw'n yn cael eu harsylwi yn rhan o'r tasgau strwythuredig nac yn ffurfio rhan o'r drafodaeth.

Gallai hyn fod ar ffurf:

- Tystiolaeth tystion gan fentor neu gyflogwr yn y gweithle
- Unrhyw ddogfennaeth o'r gweithle
- Cofnodion/nodiadau o gyfarfodydd cynnydd
- Ffurflenni cydsyniad
- *Log/dyddiadur myfyriol.*

## Beth yw uned?

Mae'r cymhwyster yn cynnwys amrywiaeth o unedau a dewisir y rhai sy'n berthnasol i'ch swydd chi. Mae pob uned yn cynnwys yr amcanion dysgu perthnasol y mae angen i chi eu cyflawni er mwyn cwblhau eich asesiadau.

### Uned 300 Hybu ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 3 |
| **ODA:** | 85 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae cynnwys yr uned hon yn adlewyrchu'r egwyddorion, yr ymddygiadau a'r gwerthoedd sylfaenol y dylid eu harsylwi a'u hadlewyrchu wrth ymarfer ym mhob gweithgaredd iechyd a gofal y mae dysgwyr yn ymgymryd â nhw.<br>Mae'r cynnwys hwn yn adeiladu ar y wybodaeth sylfaenol a ddatblygwyd yn y Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. |

ODA – oriau dysgu dan arweiniad i gwblhau'r uned hon.

Amcan – yr hyn y mae angen i chi ei ddysgu er mwyn paratoi ar gyfer asesu.

Deilliant uned – amlinelliad o gynnwys yr uned.

**Deilliant 1: Egwyddorion a gwerthoedd**

**1.1 Deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol, canllawiau a fframweithiau**

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:

- Cynnal yr holl Godau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol perthnasol wrth ymarfer
- Mewnblannu'r egwyddorion sy'n sail i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant wrth ymarfer.

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

- Bod yn fodel rôl ar gyfer ymarfer sy'n mewnblannu'r egwyddorion sydd wrth wraidd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

**1.2 Dulliau seiliedig ar hawliau**

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:

- Mewnblannu dull gweithredu seiliedig ar hawliau wrth ymarfer
- Parchu ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth tuag at blant, eu teuluoedd/gofalwyr ac eraill.

**1.3 Dulliau plentyn-ganolog**

Rydych yn gallu gweithio a chefnogi pobl eraill i weithio mewn ffyrdd sy'n:

- Mewnblannu dulliau plentyn-ganolog wrth ymarfer
- Sicrhau mai budd pennaf y plentyn sy'n cael y lle blaenaf
- Cefnogi plant i gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau a phrofiadau sy'n adlewyrchu eu hoff ddewisiadau.

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

- Cefnogi dull cydweithredol wrth weithio gyda phlant, eu teuluoedd/gofalwyr

## Crynodeb o'r uned

Yn y rhan hon mae crynodeb byr, lefel uchel o gynnwys yr uned gan gynnwys pa wybodaeth ac ymarfer sydd dan sylw. Hefyd, gall y crynodeb o'r uned roi gwybodaeth am fathau o leoliadau y mae'r uned yn berthnasol iddynt neu wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddynt.

## Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn grwpio sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. yr hyn mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu.

## Meini prawf asesu

Mae meini prawf asesu'n rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w cyflawni. Gall meini prawf asesu gael eu hategu gan amrediad, a nodir gan eiriau neu gymalau mewn testun **trwm**.

## Gwerth oriau dysgu dan arweiniad (ODA)

Mae'r gwerth hwn yn nodi faint o Oriau Dysgu dan Arweiniad y bydd eu hangen ar gyfer cyflwyno uned i ddysgwr, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â thiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr fel rhan o'r broses ddysgu, a dysgu ffurfiol gan gynnwys dosbarthiadau, sesiynau hyfforddi, seminarau a thiwtorialau. Mae unrhyw oriau dysgu dan arweiniad wedi'u talgrynnu i'r pum awr agosaf.

## Gwerth credyd

Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar yr oriau dysgu dan arweiniad **yn ogystal ag** unrhyw amser dysgu ychwanegol neu weithgareddau ychwanegol y bydd angen i'r dysgwr eu gwneud er mwyn cwblhau'r uned. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser ar gyfer dysgu anffurfiol, astudio preifat, ymarfer, myfyrio ac ati. Caiff cyfanswm yr oriau ei rannu â 10 i roi'r gwerth credyd. Mae gwerthoedd credyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

## Pa unedau galla i eu dewis?

Er mwyn ennill cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori, rhaid i ddysgwyr gyflawni isafswm o 70 credyd o'r unedau Ymarfer:

- Rhaid ennill 44 o gredydau o grŵp Gorfodol 1
- Rhaid ennill o leiaf 8 credyd o grŵp Dewisol A
- Gellir ennill yr 18 o gredydau sy'n weddill o unedau o fewn Grwpiau Dewisol A, B neu C
- chofrestru ar gyfer Uned 330 ac Uned 331 (Grŵp Gorfodol 2). Rhaid ennill yr isafswm marc GMU sy'n ofynnol ar gyfer gradd y cymhwyster. Bydd y marciau unffurf a gafwyd ar gyfer unedau 330 a 331 yn cael eu hadio at ei gilydd a bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y cyfanswm GMU hwn
- cyflawni uned 332 (Grŵp Gorfodol 3)

Lleiafswm yr oriau dysgu dan arweiniad sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn yw 1080.

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credyd |
|---|---|---|---|
| Grŵp Gorfodol 1 | | 380 | 44 |
| 300 | Hybu ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant | 190 | 20 |
| 301 | Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad | 70 | 10 |
| 302 | Hybu maeth a hydradu yn y blynyddoedd cynnar | 60 | 7 |
| 303 | Ymateb i afiechyd, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod | 60 | 7 |
| Grŵp Dewisol A | | | |
| 304 | Hybu gofal plant 0-2 oed | 80 | 8 |
| 305 | Hybu gofal plant 2-3 oed | 80 | 10 |
| 306 | Hybu gweithio gyda phlant 3-7 oed | 80 | 10 |

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credyd |
|---|---|---|---|
| **Grŵp Dewisol B** | | | |
| 307 | Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi | 20 | 4 |
| 308 | Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta | 50 | 13 |
| 309 | Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu | 25 | 4 |
| 310 | Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar | 40 | 6 |
| 311 | Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | 100 | 12 |
| **Grŵp Dewisol C** | | | |
| 312 | Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi | 20 | 3 |
| 313 | Cefnogi hybu iechyd plant | 15 | 3 |
| 314 | Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau | 15 | 3 |
| 315 | Cefnogi plant i fonitro glwcos | 15 | 3 |
| 316 | Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant | 20 | 3 |
| 317 | Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser | 35 | 8 |
| 318 | Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc | 35 | 9 |
| 319 | Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw | 15 | 3 |
| 320 | Rhoi gofal stoma | 20 | 3 |
| 321 | Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth | 20 | 4 |
| 322 | Cynnal profion sgrinio golwg | 20 | 4 |
| 323 | Cynnal profion sgrinio'r clyw ar gyfer plant oed ysgol | 15 | 3 |
| 324 | Awtochwistrellu adrenalin | 15 | 3 |

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credyd |
|---|---|---|---|
| 325 | Cefnogi rhieni newydd a darpar rieni | 20 | 4 |
| 326 | Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref | 40 | 6 |
| 327 | Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant | 25 | 4 |
| 328 | Hwyluso dysgu mewn grŵp | 20 | 4 |
| 329 | Cefnogi unigolion drwy fwydo gyda thiwb | 15 | 3 |
| 208 | Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus | 20 | 5 |
| 209 | Ymateb i adweithiau anaffylactig | 10 | 2 |
| 210 | Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant | 10 | 2 |
| 211 | Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant | 20 | 4 |
| 212 | Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli | 20 | 3 |
| 213 | Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant | 15 | 3 |
| 214 | Cynnal profion pwynt gofal | 15 | 3 |
| 215 | Casglu sbesimenau | 10 | 3 |
| Grŵp Gorfodol 2 | | 330 | 40 |
| 330 | Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru. | 280 | 34 |
| 331 | Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru. | 50 | 6 |
| Grŵp Gorfodol 3 | | 150 | 16 |
| 332 | Sgiliau ymarferol ar gyfer lleoliad gwaith yn y blynyddoedd cynnar (0-7 oed) | 150 | 16 |

# Am beth fydda i yn ei ddysgu?

| UNEDAU GORFODOL | |
|---|---|
| Uned 300: Cefnogi ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae cynnwys yr uned hon yn adlewyrchu'r egwyddorion, yr ymddygiadau a'r gwerthoedd sylfaenol y dylid eu harsylwi a'u hadlewyrchu mewn ymarfer ym mhob gweithgaredd iechyd a gofal y mae dysgwyr yn ymgymryd â nhw.<br><br>Mae'r cynnwys hwn yn adeiladu ar y wybodaeth sylfaenol a ddatblygwyd yn y Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd. |
| Uned 301: Cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth gefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad plant. |
| Uned 302: Cefnogi maeth a hydradiad yn y blynyddoedd cynnar Am beth fydda i yn ei ddysgu? | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth gefnogi maeth a hydradiad plant yn y blynyddoedd cynnar. |
| Uned 303: Ymateb i arwyddion o afiechyd a phlâu/heintiau posibl | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth adnabod afiechyd posibl yn ystod plentyndod ac ymateb iddo. |

| GRŴP DEWISOL A | |
|---|---|
| Uned 304: Cefnogi gofal plant 0-2 oed | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth weithio gyda phlant 0-2 oed. Mae'n cynnwys manteision darparu gofal plant a gwasanaethau cefnogi a darparu arferion gofal corfforol diogel. |
| Uned 305: Cefnogi gofal plant 2-3 oed | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sy'n hanfodol wrth weithio gyda phlant 2-3 oed. Mae'n cynnwys rôl darpariaeth gofal plant a gwasanaethau cefnogi a darparu arferion gofal corfforol diogel. |
| Uned 306: Gweithio gyda phlant 3-7 oed | **Crynodeb o'r Uned:**<br>Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau rhagarweiniol sydd eu hangen i gyfrannu at ofal plant 3-7 oed, gan gynnwys dysgu a datblygu, gan adlewyrchu Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar presennol yng Nghymru. |

| GRŴP DEWISOL B | GRŴP DEWISOL C |
|---|---|
| Uned 307: Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi<br>Uned 308: Cefnogi teuluoedd i feithrin sgiliau rhianta<br>Uned 309: Hybu a chefnogi lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu<br>Uned 310: Dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad yn y blynyddoedd cynnar<br>Uned 311: Cefnogi plant ag anghenion ychwanegol | Uned 312: Cefnogi plant sy'n byw gydag epilepsi<br>Uned 313: Cefnogi hybu iechyd plant<br>Uned 314: Monitro glwcos yng ngwaed y capilarïau<br>Uned 315: Cefnogi plant i fonitro glwcos<br>Uned 316: Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan blant<br>Uned 317: Rhoi gofal i blant sy'n byw gyda chanser<br>Uned 318: Gofal lliniarol a gofal diwedd oes i blant a phobl ifanc<br>Uned 319: Rhoi brechiadau trwynol rhag y ffliw<br>Uned 320: Rhoi gofal stoma<br>Uned 321: Gofalu am glwyfau nad ydynt yn rhai cymhleth<br>Uned 322: Cynnal profion sgrinio golwg<br>Uned 323: Cynnal profion sgrinio'r clyw ar gyfer plant oed ysgol<br>Uned 324: Awtochwistrellu adrenalin<br>Uned 325: Cefnogi rhieni newydd a rhieni beichiog<br>Uned 326: Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref<br>Uned 327: Paratoi ar gyfer ymarfer ym maes gwarchod plant<br>Uned 328: Hwyluso dysgu mewn grŵp<br>Uned 329: Cefnogi unigolion drwy fwydo â thiwb<br>Uned 208: Cefnogi plant sy'n byw gyda diabetes mellitus<br>Uned 209: Ymateb i adweithiau anaffylactig<br>Uned 210: Cyflwyniad i ddiffyg anadl ac asthma mewn plant<br>Uned 211: Cefnogi gofal ymataliaeth mewn plant<br>Uned 212: Cefnogi unigolion o ran symud a lleoli<br>Uned 213: Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn plant<br>Uned 214: Cynnal profion pwynt gofal<br>Uned 215: Casglu sbesimenau |

| GRŴP GORFODOL 2 | |
|---|---|
| Mae Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru yn cynnwys pum prif bwnc: | • cefnogi datblygiad cyfannol 0-19 oed<br>• ymagweddau ymddygiad cadarnhaol i gefnogi datblygiad cyfannol<br>• darpariaeth gofal iechyd sydd ar gael yng Nghymru o adeg cenhedlu hyd at 19 oed a sut mae'n cefnogi iechyd a llesiant<br>• yr egwyddorion i sicrhau dysgu cynhwysol ar gyfer pob plentyn 0-19 oed<br>• effaith meddwl traddodiadol a chyfoes ar ddatblygiad cyfannol plant.<br><br>Mae cynnwys yr uned yn estyn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y bydd dysgwyr yn eu meithrin drwy gwblhau'r unedau ymarfer o'u dewis ac yn cyflwyno pynciau ychwanegol er mwyn adlewyrchu anghenion ehangach y sector gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.<br><br>Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, gan gwmpasu'r ystod oedran gyfan sef 0-19 oed. Bydd hyn yn datblygu ac yn atgyfnerthu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinwyd yn ystod eu lleoliadau gwaith sy'n canolbwyntio ar blant 0-8 oed (neu isadran o fewn yr ystod oedran hon). Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y gall gwahanol leoliadau iechyd, blynyddoedd cynnar ac addysg hybu a chefnogi iechyd, llesiant a datblygiad, 0-19 oed.<br><br>Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth oherwydd gall eu cyfleoedd lleoliad gwaith fod yn gyfyngedig i un neu ddau leoliad.<br><br>Hefyd, gan fod yr uned yn cynnwys ffocws ar agweddau iechyd ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rôl a gwerth llawer o wahanol feysydd o fewn y sector gofal iechyd. Bydd hyn yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth o wasanaethau gofal iechyd, gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn y gwasanaethau ac yn rhoi cipolwg i ddysgwyr ar gyfleoedd gwaith yn ogystal â chymwysterau pellach o fewn y sector gofal iechyd y gallant fod am achub arnynt wrth gwblhau'r cymhwyster hwn. |
| Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru yn gofyn i ddysgwyr ymchwilio i fater cyfoes ar gyfer y sector. | Nid yw'r uned hon yn cynnwys unrhyw gynnwys ychwanegol. Er mwyn cwblhau'r asesiad, bydd dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithrinwyd ganddynt drwy gwblhau Uned 330 a'r unedau ymarfer o'u dewis. |
| Uned 332: Sgiliau Ymarferol ar gyfer Lleoliad Gwaith yn y Blynyddoedd Cynnar (0-7 oed). | Mae'r uned hon yn rhoi sgiliau a gwybodaeth i ddysgwyr i gefnogi eu lleoliad gwaith.<br><br>Mae'r uned yn cefnogi dysgwyr i:<br><br>• ddatblygu sgiliau ymarferol hanfodol ar gyfer gweithio gyda phlant 0-7 oed.<br>• cael dealltwriaeth o ddisgwyliadau lleoliadau gwaith, a<br>• datblygu sgiliau ymarferol craidd sy'n ofynnol ar gyfer y gweithle.<br><br>Mae Uned 332 wedi'i chynllunio i asesu sgiliau ymarferol, nid sail gwybodaeth fanwl. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut y gall profiadau gwahanol hyrwyddo datblygiad mewn plant 0-7 oed ar lefel sylfaenol. Byddan nhw'n adeiladu ar hyn drwy gwblhau'r unedau ymarfer lle byddan nhw'n datblygu gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth a sgiliau. |

## Pa leoliadau gwaith gallaf fynd iddyn nhw?

Mae'r cymhwyster hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gwblhau lleoliad gwaith mewn lleoliad gofal plant/iechyd plant priodol.

Yn ogystal â chyflawni'r holl ddeilliannau dysgu o fewn cynnwys y cymhwyster,bydd hefyd angen i ddysgwyr fodloni'r gofyniad o gwblhau o leiaf 100 diwrnod (700 awr) o leoliad gwaith gan weithio gyda phlant (0-7 mlwydd ac 11 mis oed) er mwyn ennill y cymhwyster hwn.

**Ni all** y gofyniad i gwblhau 100 diwrnod (700 awr) gael ei fodloni drwy amser a dreulir gyda phlant o fewn teulu/teulu estynedig dysgwr na thrwy ofalu am blant cymdogion, ffrindiau neu drwy unrhyw drefniadau anffurfiol eraill.

Er mwyn cwblhau'r 700 awr, bydd angen i'r dysgwr sicrhau lleoliad gwaith addas er mwyn dangos ei sgiliau cymhwysedd. Tra bydd ar leoliad gwaith, bydd aseswr yn ymweld â'r dysgwr er mwyn arsylwi ar ymarfer a chymhwysedd yn y gweithle. Bydd yr aseswr yn cofnodi ei ganfyddiadau mewn adroddiad a fydd yn nodi'r hyn a gyflawnwyd.

### Gall enghreifftiau o leoliadau gynnwys:


Meithrinfa


Meithrinfeydd dydd preifat


Lleoliadau Gofal Iechyd


Ysgolion Cynradd (y cyfnod sylfaen yn unig)

## Rhinweddau sydd eu hangen:

- Gofalgar
- Cyfeillgar
- Hawdd siarad â chi
- Dibynadwy
- Empathic
- Empathig
- Amddiffynno
- Cyfathrebwr da
- Creadigol
- Prydlon
- Chwaraewr tîm da
- Gweithredu ar eich menter eich hun
- Amyneddgar
- Â meddwl agored
- Llawn parch
- Deall a gwerthfawrogi diwylliannau, credoau a chrefyddau eraill
- Gwydn
- Yn gallu ymddiried ynoch

# Pwy fydd yn rhan o fy nhaith ddysgu?

## Tiwtor

- gofyn ac ateb cwestiynau
- helpu i gynllunio a threfnu llwyth gwaith ac ati
- eich helpu i ddod o hyd i leoliadau gwaith
- arholi eich portffolio o dystiolaeth
- asesu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth
- barnu pryd fyddwch chi wedi bodloni'r safon ofynnol

## Aseswr

- ymweld â chi yn eich lleoliad gwaith
- cynnal eich arsylwadau
- rhoi adborth ar ymarfer proffesiynol
- eich helpu i gynllunio a pharatoi ar gyfer asesiadau
- bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad asesu ynghylch pa mor dda rydych yn gwybod ac yn deall y wybodaeth am y cymhwyster

## Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol

- byddan nhw yn cael eu dewis gan eich ysgol, coleg neu ddysgwr yn y gweithle
- maen nhw yn sicrhau bod athrawon/tiwtoriaid/aseswyr yn gywir, yn deg ac yn gyson o ran dehongli a deall safonau a gofynion y cymhwyster

## Mentor lleoliad gwaith

- mentora a chefnogi pan fyddwch chi ar leoliad gwaith
- cysgodi a dysgu arfer da
- pwynt cyswllt cyntaf pan fyddwch chi ar leoliad gwaith
- cwblhau'r cyfnod sefydlu

# Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Efallai y bydd modd i chi wneud cais am gefnogaeth ychwanegol yn ystod eich cyfnod astudio ac asesu. Bydd yn rhaid i chi fodloni meini prawf penodol. Mae'r broses yn cymryd amser i'w threfnu felly gwnewch yn siŵr eich bod ynsiarad â'ch tiwtor/athro neu aseswr cyn gynted â phosibl i wneud y trefniadau.

Mae llawer o wefannau sy'n cynnig cefnogaeth a gwybodaeth ychwanegol:

## Dysgu Iechyd a Gofal Cymru: https://www.dysguiechydagofal.cymru

## Gofal Cymdeithasol Cymru: https://gofalcymdeithasol.cymru

# ASESU



# Gwybodaeth flaenorol o Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Os rydych chi wedi cwblhau Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd, rydych chi wedi ymdrin â rhannau o'r theori ar gyfer Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori. Gallwch chi ddefnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i ddangos cymhwysedd yn Uned 300.

Isod ceir rhai testunau y byddech chi wedi ymdrin â nhw:


Egwyddorion a gwerthoedd mewn GChDDP


Dull plentyn-ganolog


Perthnasoedd ac agweddau proffesiynol


Dulliau ymddygiad



Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru


Ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad, iechyd a llesiant


Amgylcheddau


Anghenion cefnogi ychwanegol


Gofal corfforol i blant


Maeth a hydradu


Diogelu


Iechyd a Diogelwch

## Dull asesu

Asesir y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a'r unedau ymarfer yn y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn fewnol drwy gyfres o weithgareddau asesu.

- Cyfres o **dasgau strwythuredig** a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynnwys gorfodol, ac i ddarparu fframwaith i gasglu'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr unedau a ddewisir o grwpiau dewisol A a B. Fel rhan o'r tasgau hyn arsylwir ar ymgeiswyr yn cefnogi dysgu a datblygiad plant drwy gwblhau a gwerthuso pedwar arsylwad, cyn cynllunio pedwar gweithgaredd datblygiadol ar wahân a chynnal y gweithgareddau hynny wedyn.
- Bydd **portffolio o dystiolaeth** yn cael ei gadw ochr yn ochr â'r tasgau strwythuredig. Pwrpas y portffolio yw gweithredu fel tystiolaeth ar gyfer unrhyw unedau/deilliannau nad yw'n debygol y byddant yn cael eu gweld yn rhan o'r tasgau strwythuredig nac yn ffurfio rhan o'r drafodaeth. Bydd hyn yn cynnwys elfennau sail sy'n rhan o'r cynnwys gorfodol, lle mae'r dystiolaeth yn fwyaf tebygol o ddod o'r hyn sy'n cael ei arsylwi neu'n ymhlyg mewn ymarfer o ddydd i ddydd. Bydd y portffolio hefyd yn cynnwys tystiolaeth o unedau dewisol grŵp C, lle nad yw tystiolaeth yn gallu cael ei chynhyrchu'n hawdd o'r fframwaith o dasgau.
- Penderfynir ar y dull asesu terfynol drwy werthusiad terfynol gan yr ymgeisydd o'i weithgareddau, ar ffurf **trafodaeth broffesiynol** wedi'i harwain gan yr aseswr. Bydd yn canolbwyntio ar fyfyrdodau a dysgu'r ymgeisydd o hybu a chefnogi chwarae, dysgu a datblygiad plant drwy ei ymarfer.

## Uned 330

### Arholiad allanol (Uned 330)

Bydd yr arholiad allanol yn cynnwys un papur 120 munud o hyd (sy'n gallu cael ei sefyll ar bapur neu ar y sgrin) a fydd:

- wedi'i osod a'i farcio gan CBAC
- yn asesu cynnwys ym meysydd testun 1-5
- yn cynnwys uchafswm o 100 marc
- yn cynnwys cwestiynau atebion byr ac estynedig, yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi a chyddestunau cymhwysol
- yn asesu pob maes testun (1-5) ym mhob cyfres
- yn asesu pob rhan o bob maes testun allweddol dros oes y fanyleb
- yn cael ei raddio ar sail llwyddiant/teilyngdod a rhagoriaeth
- ar gael ym mis Ionawr a mis Mai o 2021 ymlaen.

## Uned 331

### Ymchwiliad Estynedig (Uned 331)

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflawni ymchwiliad estynedig yn seiliedig ar destun penodol. Pwrpas yr ymchwiliad hwn yw galluogi dysgwyr i gynnal a dadansoddi tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad a fydd yn cefnogi'r dysgu o uned 330, yn cysylltu theori ac ymarfer ac yn helpu i baratoi ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch (os yw'n gymwys).

Mae tri cham asesu i'r asesiad di-arholiad a gaiff eu rheoli:

- gosod yr ymchwiliad
- cwblhau'r ymchwiliad
- marcio'r ymchwiliad.

# Uned 332

## Portffolio wedi'i asesu'n fewnol (Uned 332)

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy bortffolio annibynnol o dystiolaeth a gynhyrchir gan y dysgwr. Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol a bydd angen Sicrhau Ansawdd Mewnol a Sicrhau Ansawdd Allanol.

Gellir cyflwyno'r uned hon mewn sawl ffordd wahanol, a gellir defnyddio amrywiaeth o fathau o dystiolaeth i ddangos cymhwysedd ymgeisydd.

# Crynodeb o’r asesu ar gyfer Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

**TASG A**

Log myfyriol

Portffolio o dystiolaeth

**TASG B**

Cynllunio pedwar gweithgaredd / profiad

**TASG C**

Gwerthusiad cyfannol

**TASK CH**

Adolygiadau o bedwar gweithgaredd / profiad

**TASK D**

Cofnodion gofynnol y gweithle

Eich cofnodion o’r gweithgaredd

Arsylwad yr aseswr

**TASK E**

Trafodaeth broffesiynol

# Beth yw log myfyriol?

Mae eich log myfyriol yn ddarn hanfodol o dystiolaeth wrth gwblhau eich cymhwyster **Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer**. Mae hwn yn ddarn ysgrifenedig o dystiolaeth lle rydych chi'n myfyrio ar eich ymarfer wrth weithio gyda'r plant yn eich lleoliad, ac yn nodi unrhyw rai o'ch anghenion datblygu eich hun i'w trafod ymhellach â'ch rheolwr/aseswr.


Mae'r log hwn yn fwy na dyddiadur a bydd yn cynnwys mwy na chofnod o ddigwyddiadau. Bydd hefyd yn cynnwys hunan-fyfyrio, dadansoddiad beirniadol ac adolygiadau manwl o'r hyn yr ydych wedi'i gyflawni, yr hyn sydd wedi mynd yn dda, neu ddim cystal, a'ch meddyliau a'ch teimladau ynghylch sut i ddatblygu a gwella'n ymarferol. Mae hefyd yn gyfle i chi ddangos eich bod yn gwybod ac yn deall y cysyniadau, y dulliau, y polisi a'r ddeddfwriaeth sy'n sail i ymarfer plentyn-ganolog, o ansawdd uchel, ac sy'n seiliedig ar hawliau.

Anogir eich rheolwr i'ch cefnogi i lenwi'r log hwn gan ddefnyddio mathau gwahanol o fyfyrio, eich helpu i nodi a defnyddio fformat sy'n adlewyrchu eich arddull dysgu orau. Dylai eich rheolwr sicrhau eich bod yn deall yr hyn y mae angen i chi ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen i chi ddarparu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn eich gwaith ysgrifenedig. Dylai eich rheolwr hefyd sicrhau nad ydych chi yn cael eich arwain, nac yn cael gwybod beth i'w wneud, mewn ffordd sy'n eich atal rhag gallu dangos eich proses gwneud penderfyniadau a'ch ymarfer eich hun.

Mae myfyrio yn broses barhaus, sy'n hynod o werthfawr a phwysig, ac felly dylech ddiweddaru eich log yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod rhwng cyfarfodydd cynnydd. Bydd eich log yn destun trafodaeth yn ystod cyfarfodydd cynnydd a bydd yn galluogi eich aseswr a'ch rheolwr i gefnogi eich dysgu yn well, gan bennu eich hyder a'ch gwybodaeth ynghyd â'ch parodrwydd ar gyfer yr asesiad.

Mae amrywiaeth o fodelau myfyrio y gallwch chi eu defnyddio ar gyfer eich log myfyriol ac adolygiad myfyriol o'r 4 cyfle/profiad yn rhan o'r cymhwyster **Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.** Fodd bynnag, argymhellir eich bod yn dilyn y model *'Head, Heart, Tummy, Toes'* (Pen, Calon, Bol, Bysedd Traed) gan Rachel Rayner.

Bydd y model hwn yn rhoi arweiniad i chi o ran yr elfennau a haenau gwahanol sydd eu hangen mewn myfyrdod da, gan sicrhau felly eich bod yn cynnwys y manylion, y dadansoddiad a'r myfyrdod angenrheidiol o fewn eich holl gofnodion.



# Beth yw trafodaeth dan arweiniad?

Y gweithgaredd asesu terfynol y mae angen i chi ei gwblhau yw trafodaeth ffurfiol â'ch aseswr. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddatblygu i helpu eich aseswr i gadarnhau neu i gyfnerthu unrhyw fylchau yn eich tystiolaeth; neu i fagu mwy o hyder, yn enwedig ynghylch unrhyw agweddau ar wybodaeth na chawsant eu gweld neu na chawsant eu harchwilio'n llawn wrth arsylwi ar eich ymarfer.

Dylai'r drafodaeth ffurfio rhan fach o'r asesiad cyffredinol; os bydd eich aseswr yn canfod bod y dystiolaeth i'w chasglu o fewn yr elfen hon yn anghymesur o drwm, bydd yn adolygu hyn ac yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth amgen.

Bydd eich aseswr yn defnyddio'r drafodaeth i'ch holi chi am feysydd lle nodwyd nad oes digon o dystiolaeth yn eich portffolio a'r tasgau. Efallai y bydd eich aseswr wedi nodi'r diffygion hyn yn gynharach yn y broses asesu, e.e. wrth gynllunio a mapio deilliannau'n gychwynnol, neu gan na welwyd tystiolaeth yn ystod y broses arsylwi ac asesu barhaus; neu gall wneud hynny wrth adolygu'r dystiolaeth derfynol a gyflwynwyd cyn y drafodaeth.

## Cyn y drafodaeth

Bydd yr aseswr yn cynllunio strwythur y drafodaeth, h.y. ystyried y deilliannau i'w hadolygu a'r amrywiaeth o gwestiynau i'w gofyn i chi. Ni fydd gofyn i chi baratoi unrhyw beth penodol ar gyfer y drafodaeth a bydd yr aseswr yn sicrhau bod y cwestiynau'n glir, a bod digon o gyd-destun perthnasol yn cael ei roi os yw'n gofyn cwestiwn am agwedd ar ymarfer yr arsylwyd arno, er mwyn caniatáu i chi gofio'r digwyddiad.

## Cyflwyno'r drafodaeth

Mae'n bwysig eich bod yn teimlo'n gyfforddus ar ddechrau'r asesiad a chyn dechrau casglu tystiolaeth. Diben hyn yw gallu cynnal asesiad cywir o'r ffordd rydych yn cyrraedd y safonau drwy leihau'r graddau y gallai eich nerfau effeithio ar eich perfformiad. Bydd eich aseswr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau hyn, gan gynnwys:

- cyflwyno ei hun ac esbonio ei rôl yn y broses
- crynhoi pwrpas a strwythur y drafodaeth
- pwysleisio'r ffaith y bydd yr asesiad yn gwbl gyfrinachol
- gofyn i chi a oes gennych unrhyw gwestiynau cyn i'r asesiad ddechrau.

## Yn ystod y drafodaeth

Bydd eich aseswr yn gwneud nodiadau i gasglu eich ymatebion. Dylai'r drafodaeth deimlo mor naturiol â phosibl, gan ddefnyddio cwestiynau agored er mwyn eich galluogi chi i lywio'r sgwrs. Disgwylir i'r aseswr ddefnyddio nifer o dechnegau er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn effeithiol ac â phwyslais penodol. Gall y rhain gynnwys:

- Defnyddio cwestiynau dilynol lle bo angen er mwyn cael mwy o wybodaeth neu egluro pwyntiau, fel 'Sut roeddech chi'n gwybod hynny?', 'Sut wnaethoch chi ddod i'r casgliad hwnnw?'.
- Crynhoi'r pwyntiau a nodwyd er mwyn sicrhau ei fod wedi deall a chofnodi tystiolaeth yr ymgeisydd yn gywir.

## Yn dilyn y drafodaeth

Bydd eich aseswr yn llenwi'r Ffurflen Cofnodi Trafodaeth yn cadarnhau p'un a oes tystiolaeth ddigonol o'r deilliannau allweddol.

## Amseriadau

Gan fod y drafodaeth wedi'i seilio ar gadarnhau ac atgyfnerthu tystiolaeth, ni ddisgwylir iddi bara mwy na 15-20 munud i gyd.

## Cadw tystiolaeth

Mae hawl gan yr aseswr i recordio'r drafodaeth yn ddigidol er mwyn cefnogi'r broses asesu, e.e. i ôl-adolygu'r drafodaeth, neu helpu i wneud nodiadau y gall fod yn anodd eu gwneud yn llawn yn ystod y drafodaeth ei hun. Os bydd yr aseswr am recordio'r drafodaeth yn ddigidol, rhaid iddo drafod a chytuno ar hyn gyda chi cyn dechrau.

# HOFF DDULL DYSGU



## Sut ydw i'n hoffi dysgu – beth yw fy 'hoff' ddull dysgu?

Mae dysgu yn broses unigol iawn, ac felly mae'n bwysig canolbwyntio ar sut gallwch ddysgu a phrosesu gwybodaeth yn effeithiol a sut gall hyn gefnogi eich llwyddiant a'ch dilyniant. Mae'n bwysig eich bod yn dysgu'n effeithiol er mwyn i chi allu cofio eich gwybodaeth newydd yn hawdd pan mae angen. Nid yw hyn yn ymwneud â pherfformio'n dda yn eich asesiadau yn unig – mae'r un mor bwysig eich bod yn gallu cofio eich gwybodaeth wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlant ac eraill. Bydd y cymhwyster hwn yn eich galluogi chi i ddatblygu a dangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gan y rhan fwyaf o bobl hoff ffordd o ddysgu y gellir ei disgrifio'n fras mewn un neu ddau o'r canlynol:

- Gwneud
- Meddwl
- Teimlo
- Gwylio.


Dros y blynyddoedd mae cryn dipyn o fodelau neu ddamcaniaethau wedi'u datblygu i geisio ein helpu ni i gydnabod sut rydyn ni'n dysgu a pha fathau o bethau y gallai fod eu hangen ar bobl wahanol er mwyn gwneud dysgu'n haws ac yn fwy llwyddiannus. Dau o'r modelau mwyaf poblogaidd neu'r rhai a ddefnyddir amlaf yw damcaniaeth dysgu drwy brofiadau Kolb (1984) a damcaniaeth Honey a Mumford (1983) ar ddulliau dysgu.

Mae model Kolb yn awgrymu bod dysgu effeithiol yn digwydd mewn cylch, bod 'profiadau' yn ganolog i'r broses a bod y rhan fwyaf o bobl yn dysgu gan ddefnyddio un neu ddau fath o weithred – teimlo, meddwl, gwylio, gwneud.




Kolb D.A. (1984) 'Experiential Learning experience as a source of learning and development', New Jersey: Prentice Hall

Adeiladodd Honey a Mumford ar ddamcaniaeth Kolb gan awgrymu bod pedwar math o ddulliau dysgu ac y bydd dull dysgu unigolyn yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan un neu ddau o'r rhain yn unig.




Pan gyflwynwyd y testun o 'hoff' ddulliau dysgu am y tro cyntaf fel ffordd o gefnogi dysgu effeithiol, credai llawer mai dim ond mewn ffordd benodol yr oedd unigolion yn dysgu a bod hyn yn gymharol ddinewid. Mae syniadau modern am 'hoff' ddull dysgu yn cydnabod na ddylid meddwl am y ffordd rydych yn mynd ati i ddysgu fel rhywbeth sy'n ddinewid. Mae meddwl am eich hoff ffordd o ddysgu yn ddefnyddiol i'ch helpu i ystyried sut rydych chi'n ymateb yn wahanol i wybodaeth gan ddibynnu ar bethau fel sut rydych chi'n teimlo, eich cymhelliant a'ch hyder, y math o amgylchedd rydych chi ynddo ac ati.

Os ydych chi'n meddwl am y tro diwethaf y bu'n rhaid i chi ddysgu rhywbeth, efallai y byddwch yn gweld bod eich hoff ddull yn gweddu i un, neu ddau efallai, o'r categorïau canlynol:

| Dull Dysgu | Efallai mai dyma'ch hoff ddull dysgu os: | Rydych yn: | Mathau o ddulliau dysgu sy'n apelio |
|---|---|---|---|
| Gweithredydd | rydych chi'n hoffi dysgu drwy wneud | frwdfrydig; yn tueddu i weithredu'n gyntaf, ac ystyried yn nes ymlaen; yn y sefyllfa sydd ohoni | cynhyrchu syniadau, arbrofi ymarferol, chwarae rôl, trafodaeth grŵp a datrys problemau. |
| Pragmatydd | rydych chi'n hoffi gwybod sut mae pethau'n gweithio neu'n gallu gweithio yn y byd go iawn | tueddu i sefyll yn ôl; ystyried pob ongl; tueddu i fod yn or-ofalus | astudiaethau achos ac amser i feddwl am gymwysiadau ymarferol yr hyn rydych yn ei ddysgu |
| Myfyriwr | rydych chi'n hoffi meddwl am yr hyn rydych chi'n ei ddysgu | hoffi rhoi cynnig ar bethau; yn gweithredu'n gyflym ac yn hyderus; yn gallu bod yn ddiamynedd; yn ddatryswr problemau effeithiol | treulio amser yn darllen o amgylch pwnc, a gwylio eraill yn rhoi cynnig ar bethau |
| Damcaniaethwr | rydych chi'n hoffi deall sut mae'r dysgu newydd yn cyd-fynd â'ch 'model gweithio' neu 'fframwaith' ac â damcaniaethau blaenorol | dda am addasu; yn hoffi dadansoddi i feddwl yn ddwfn am bethau; yn feddyliwr rhesymegol | modelau a damcaniaethau, gyda digon o wybodaeth gefndirol |

Os ydych yn meddwl am rai profiadau dysgu eraill yr ydych wedi eu cael, efallai y byddwch yn sylwi eich bod wedi defnyddio dull gwahanol oherwydd, er enghraifft, (1) roedd gennych fynediad at adnoddau gwahanol, (2) roeddech chi'n teimlo'n hyderus, (3) roeddech chi'n gallu cymryd eich amser. Y rheswm am hyn yw bod yr amgylchedd, sut rydych chi'n teimlo'n emosiynol a'ch profiadau dysgu yn y gorffennol yn gallu effeithio ar sut gallech fynd ati i ddysgu heddiw.

Siaradwch â'ch tiwtor/athro/aseswr/mentor yn y gweithle/cyflogwr am yr hyn sy'n gwneud dysgu yn haws i chi a pha bryderon, os o gwbl, sydd gennych chi am ddechrau cymhwyster neu raglen astudio newydd. Efallai y bydd eich tiwtor/athro/athrawes/mentor yn y gweithle/cyflogwr hefyd yn gallu eich helpu i gael mynediad at gefnogaeth a chyngor ychwanegol, gan gynnwys sut i adnabod a deall yn well pa ddulliau dysgu gwahanol sy'n gweithio orau i chi.

# RHESTR TERMAU



# Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau ymarfer** | Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi canllawiau ar yr elfennau gwahanol sydd i'w cael yn yr unedau a gwybodaeth am gyflwyno'r unedau. |
| **Cymhwyso uned 200** | Cynnwys yr uned hon yw cymhwyso ymarfer sy'n adlewyrchu'r wybodaeth sylfaenol y bydd y dysgwyr wedi'i meithrin drwy'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.<br><br>Bydd angen defnyddio cynnwys yr uned hon mewn unedau ar draws y cymhwyster – dylid ystyried hyn yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno unedau eraill yn y cymhwyster. |
| **Crynodeb o'r uned** | Yn y rhan hon mae crynodeb byr, lefel uchel o gynnwys yr uned gan gynnwys pa wybodaeth ac ymarfer sydd dan sylw. Hefyd, gall y crynodeb o'r uned roi gwybodaeth am fathau o leoliadau y mae'r uned yn berthnasol iddyn nhw neu wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddyn nhw. |
| **Deilliannau dysgu** | Mae deilliannau dysgu yn grwpio sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. yr hyn mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu. |
| **Meini prawf asesu** | Mae meini prawf asesu'n rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w cyflawni. Gall meini prawf asesu gael eu hategu gan amrediad, a nodir gan eiriau neu ymadroddion mewn print **trwm**. |
| **Amrediad** | Bydd rhai geiriau neu ymadroddion yn y meini prawf asesu mewn print **trwm**. Mae hyn yn golygu bod amrediad wedi cael ei chyflwyno a fydd i'w gweld ar waelod y deilliant dysgu. Mae'r wybodaeth yn yr amrediad yn trafod pa mor fanwl y mae angen bod a faint o fanylion i'w cynnwys ar gyfer meini prawf asesu penodol. Nid yw'r amrediad yn rhestr gynhwysfawr, gallai enghreifftiau eraill fod yn addas i'r maes testun hwn. Y gosodiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr amrediad yw'r rheini sy'n allweddol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned – **rhaid ymdrin â'r holl elfennau a restrir yn yr amrediad fel rhan o gyflwyno'r uned**.<br><br>Mae'n ofynnol cyflwyno'r holl elfennau sy'n rhan o'r amrediad, ond nid oes disgwyl arsylwi holl elfennau'r amrediad yn benodol yn rhan o'r broses asesu; mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai dyfarniad cyfannol yw'r dyfarniad asesu, a'i fod yn seiliedig ar lefel y deilliant dysgu. |
| **Gofynion tystiolaeth** | Mae gofynion tystiolaeth yn rhoi manylion am sawl gwaith mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau gweithgareddau ymarferol cyn yr ystyrir eu bod yn gymwys os nad yw'r uned yn cael ei hasesu fel rhan o'r dull asesu cyfannol. Dim ond ar gyfer unedau o fewn Grŵp Dewisol C mae gofynion tystiolaeth wedi cael eu hysgrifennu. Mae manylion llawn y dull asesu ar gyfer y cymhwyster i'w gweld yn adran asesu'r llawlyfr hwn ac yn y pecyn asesu cysylltiedig. |

| | |
|---|---|
| **Canllawiau cyflwyno** | Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr wrth addysgu'r uned ac maen nhw'n cynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned lle bo hynny'n berthnasol. Er enghraifft, cysylltiadau y gellir eu gwneud rhwng unedau o fewn y cymhwyster neu enghreifftiau o'r ffordd y gellir cyflwyno'r cynnwys i ddysgwyr.<br><br>Mae'r canllawiau cyflwyno yn cynnwys diffiniadau o derminoleg allweddol y cyfeirir ati yn yr uned.<br><br>D.S. – Ar gyfer Uned 200 mae'r diffiniadau o'r termau sy'n cael eu dangos mewn print **trwm** wedi'u cynnwys yn y canllawiau cyflwyno. |
| **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig** (*National Occupational Standards*) | Cyflwynir y rhain fel canllaw i diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr sy'n cyflwyno'r cynnwys ac maen nhw'n dangos ble y gall cynnwys yr unedau fod yn berthnasol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gael eu cyflwyno fel rhan o unedau. D.S. – er y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y rhai ar y rhestr yn gyfredol, mae'n bosibl y bydd fersiynau newydd neu ddiwygiedig o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disodli'r rhain. |
| **Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig** | Cyflwynir y rhain er hwylustod cyfeirio ac er mwyn rhoi cyd-destun i'r uned, a gellir eu defnyddio er mwyn helpu i gyflwyno'r cynnwys a rhoi cyd-destun ehangach. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Dylid sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, canllawiau, gwefannau a dogfennau ac ati ar y rhestr yn gyfredol ac yn berthnasol cyn cyflwyno cynnwys yr uned. |
| **Arweiniad o ran yr unedau a argymhellir** | Argymhellir y dylai dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn gyda'r bwriad o symud ymlaen i rôl benodol yn y sector iechyd a gofal plant gael arweiniad o ran yr unedau a fydd fwyaf buddiol iddyn nhw yn y rolau hyn.<br><br>Darperir tabl (Atodiad 1) er mwyn helpu i nodi'r unedau sy'n fwyaf addas ar gyfer rolau penodol.<br><br>Gellir cael rhagor o arweiniad ar ofynion rolau penodol yn y sector ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. |
| **Gwerth Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA)** | Mae'r gwerth hwn yn nodi faint o oriau dysgu dan arweiniad y bydd eu hangen ar gyfer cyflwyno uned i ddysgwr, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â thiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr fel rhan o'r broses ddysgu, ynghyd â dysgu ffurfiol gan gynnwys dosbarthiadau, sesiynau hyfforddi, seminarau a thiwtorialau. Mae unrhyw oriau dysgu dan arweiniad wedi'u talgrynnu i'r pum awr agosaf. |
| **Gwerth credyd** | Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar yr oriau dysgu dan arweiniad **yn ogystal ag** unrhyw amser dysgu ychwanegol neu weithgareddau ychwanegol y bydd eu hangen ar y dysgwr i gwblhau'r uned. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser ar gyfer dysgu anffurfiol, astudio preifat, ymarfer, myfyrio ac ati. Mae cyfanswm yr oriau yn cael ei rannu â 10 i roi'r gwerth credyd. Mae gwerthoedd credyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. |

# Berfau gorchmynnol a ddefnyddir yn y cymhwyster hwn:

| **Lefel 3 GChDDP Ymarfer a Theori: Asesiadau Allanol**<br>**Defnyddir y gorchmynion canlynol yn rhan o'r asesiadau allanol** | | |
|---|---|---|
| **AA** | **Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| **AA1** | Diffiniwch | Rhowch union ystyr |
| | Disgrifiwch | Rhoi nodweddion/prif nodweddion neu ddisgrifiad cryno |
| | Rhowch | Darparu/enwi/dethol/adnabod ffeithiau cryno neu enghreifftiau (o ffynhonnell sydd wedi'i rhoi neu o'r cof) |
| | Nodwch *(Identify)* | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Rhestrwch | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Enwch | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Amlinellwch | Amlinellu'r prif bwyntiau/rhoi disgrifiad cryno neu brif nodweddion |
| | Nodwch *(State)* | Fel yn achos 'Rhowch' |
| | Awgrymwch | Cyflwynwch syniad, rheswm neu gam gweithredu posibl |
| | Crynhowch | Dewiswch a chyflwynwch y prif bwyntiau (heb fanylion) |
| **AA2** | Dadansoddwch | Archwiliwch fater yn fanwl; sut mae'r rhannau'n berthnasol i'r cyfan, esboniwch a dehonglwch |
| | Cymhwyswch | Defnyddiwch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddamcaniaeth neu gysyniad a chysylltu hynny â chyd-destun penodol |
| | Disgrifiwch<br>Trafodwch | Rhowch fanylion effaith, h.y. yr hyn sydd wedi newid/digwydd<br>Archwiliwch fater yn fanwl/mewn ffordd strwythuredig, gan ystyried syniadau gwahanol |
| | Esboniwch | Rhowch fanylion a rhesymau dros sut a pham mae rhywbeth fel y mae |
| | Dangoswch | Dangos yn glir sut mae cysyniad neu ddamcaniaeth yn gweithio mewn cyd-destun penodol |
| | Defnyddiwch | Cymhwyswch y wybodaeth a ddarparwyd at ddamcaniaeth neu gysyniad penodol |
| **AA3** | Cyngor | Awgrymwch gynnig neu ddull gweithredu sy'n seiliedig ar resymau a gefnogwyd |
| | Aseswch | Lluniwch farn wybodus |
| | Cymharwch | Adnabod tebygrwydd a rhoi sylwadau/esbonio |
| | Ystyriwch | Darllenwch y wybodaeth a roddwyd ac ymatebwch iddi |
| | Cyferbynnwch | Adnabod gwahaniaethau a rhoi sylwadau/esbonio |
| | Gwahaniaethwch rhwng | Nodwch ac esboniwch y gwahaniaethau rhwng syniadau neu bynciau |
| | Gwerthuswch | Lluniwch farn drwy bwyso a mesur tystiolaeth er mwyn dod i gasgliad |

| | | |
|---|---|---|
| | Archwiliwch | Archwiliwch yn drylwyr, yn fanwl a dewch i gasgliad |
| | Ymchwiliwch | Astudiwch yn fanwl a dewch i gasgliad |
| | Cyfiawnhewch | Defnyddio tystiolaeth/dadl i ategu achos |
| | Argymhellwch | Cyflwyno cynnig yn seiliedig ar resymau/tystiolaeth |
| | Adlewyrchwch | Gwerthuswch a/neu ystyriwch |